



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl Breswlydd, Perchennog neu Feddiannydd,

Cyf: Llywodraeth Cymru – Safle Rheoli Ffiniau Parc Cybi, Caergybi

Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu am newidiadau arfaethedig i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau ym Mharc Cybi, Caergybi.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu Plot 9, Parc Cybi, Caergybi i fod yn Safle Rheoli Ffiniau i wasanaethu Porthladd Caergybi. Mae angen y safle gan nad oes digon o le o fewn y porthladd ar hyn o bryd i brosesu'r gwiriadau sydd eu hangen yn y dyfodol yn dilyn diwedd cyfnod pontio'r DU gyda'r UE ar 31 Rhagfyr 2020.

Byddai'r safle'n cael ei ddefnyddio fel lleoliad i archwilio nwyddau fel anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid sy'n dod i mewn i Gymru drwy Borthladd Caergybi. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r gwiriadau yma. Byddai'r safle'n cynnwys manau parcio ar gyfer cerbydau HGV a cherbydau eraill yn ogystal â mesurau diogelwch a chyfleusterau i alluogi gwirio cerbydau a nwyddau sy'n mynd i mewn ac ymadael â'r safle.

Bydd angen cymeradwyaeth ar ddefnydd arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r safle, sy'n ceisio hynny o dan ofynion Gorchymyn Datblygiad Arbennig (SDO), cais deddfwriaethol am ganiatâd cynllunio.

Yn dilyn newidiadau yn null Llywodraeth y DU o reoli ffiniau, mae'r cyfleuster bellach wedi'i gynllunio i fod yn llai na'r disgwyl i ddechrau, mae hyn yn caniatáu i rywfaint o dir barhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer parcio HGV ac mae'r SDO yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn. Bydd ardal parcio'r HGV yn caniatáu 60 o gerbydau a bydd cawod a chyfleusterau toiled.

Mae cynllun diwygiedig wedi'i amgáu sy'n nodi egwyddorion y safle. Mae'r cynllun hwn yn dangos nodweddion dangosol o ddyluniad y cynllun ac mae'n bosib y bydd yn newid.

Rhoi eich barn

Rydym yn eich gwahodd i roi sylwadau ar y cynigion yn ystod y cyfnod o ymgysylltu cymunedol o 21 diwrnod a fydd yn cael ei gynnal o ddydd Mercher 16 Tachwedd 2022 tan hanner nos, **ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022**.

Cewch ddarparu sylwadau trwy e-bostio BorderInfrastructureProgramme@llyw.cymru

Bydd sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgysylltu cymunedol yn cael eu cynnwys yn ein dogfennau cyflwyno cynllunio.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales

I gael mwy o fanylion, ewch i'n gwefan yn [Parc Cybi, Safle Rheoli Ffiniau Caergybi \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Bydd y wefan yn cael ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn rhoi datblygiad y cynllun i chi.

Yn gywir,

**Rhaglen Cyflawni'r Seilwaith Ffiniau
Llywodraeth Cymru**
BorderInfrastructureProgramme@llyw.cymru